# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 22 Mawrth 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys

2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

## *Gofyn i’r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**William Graham (Dwyrain De Cymru):** Pa drafodaethau y mae’r Gweinidog wedi’u cael ynghylch sut y caiff yr ymgyrch "Be the Boss”, a gyllidir gan Lywodraeth y DU ac a gyflwynir gan y Lleng Brydeinig Frenhinol er mwyn darparu benthyciadau/grantiau i gyn-filwyr i ddechrau/tyfu busnesau, ei rhoi ar waith yng Nghymru. (WAQ55905)

***Rhoddwyd ateb ar 30 Mawrth 2010***

Bydd fy swyddogion yn cyfarfod â swyddogion o'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau, y Weinyddiaeth Amddiffyn a BusinessLink yn ddiweddarach y mis hwn i ystyried cyfleoedd o ran sut y gellir cysylltu'r cymorth a roddir gan y Lleng Frenhinol Brydeinig â gwasanaethau prif ffrwd ar gyfer pobl sy'n dechrau busnes yng Nghymru.